

Cariad

Darllen: Mathew 5:43–44

Mae'r iaith Roeg yn iaith gyfoethog iawn, a cheir enghraifft o hyn yn y pedwar gair gwahanol am gariad. *Erôs* a ddefnyddir i ddisgrifio'r cariad sy'n bodoli rhwng gwryw a benyw, sef cariad corfforol, rhywiol. Does dim cofnod o'r gair hwn yn y Testament Newydd. Mae *storgç* yn ymwneud â pherthynas oddi mewn i'r teulu, neu'n wir fe all olygu cariad pobl tuag at eu harweinydd neu gariad at y genedl. Mae'r ansoddair *philostorgos* yn ymddangos unwaith yn 'Rheolau'r Bywyd Cristnogol' yn y Llythyr at y Rhufeiniaid, 'Byddwch wresog yn ei serch at eich gilydd,' neu'r hen gyfieithiad, 'Mewn cariad brawdol byddwch garedig i'ch gilydd' (Rhufeiniaid 12:10). Y gair mwyaf cyffredin am gariad yn yr iaith Roeg yw *philia*, sy'n golygu cynhesrwydd at rywun arall, a cheir y gair hwn yn yr efengylau, 'Nid yw'r sawl sy'n caru tad neu fam yn fwy na myfi yn deilwng ohonof fi' (Mathew 10:37). Fe'i defnyddir i gyfleu cariad Iesu at Lasarus, 'Yna dywedodd yr Iddewon, "Gwelwch gymaint yr oedd yn ei garu ef"' (Ioan 11:36). Dyma'r gair a geir hefyd yn yr adnod, 'Rhedodd, felly, nes dod at Simon Pedr a'r disgybl arall, yr un yr oedd Iesu'n ei garu' (Ioan 20: 2). Disgrifio perthynas glos a chynnes y mae *philia*.

Ond y gair mwyaf cyffredin am gariad yn Y Beibl yw *agapç* – ceir yr enw *agapç* oddeutu 120 o weithiau a'r ferf *agapan* dros 130 o weithiau. Gwelir gwir ystyr *agapç* yn Mathew 5:43–44. Gwelir yn y rhan hon o'r Bregeth ar y Mynydd bod Iesu'n disgwyl mwy oddi wrth ddeiliaid y Deyrnas na neb arall, gan nad y safonau cyffredin yw ei safonau ef. I raddau helaeth, gall pawb garu ei deulu a'i gyfeillion; ond gosodwyd nod uwch o lawer i blant y Deyrnas, 'Carwch eich gelynyon' (5:44). Mae Iesu'n atgoffa'i ddisgyblion o ofynion y Gyfraith, 'Clywsoch fel y dywedwyd, "Câr dy gymydog a chasâ dy elyn"' (5:43). Ac ar dudalennau'r Hen Destament, gwelwyd droeon enghreifftiau o'r Gyfraith yn cael ei gwireddu. Arwyddocâd y gair *agapç* yn y cyd-destun hwn yw, nid yn unig *hoffi'r* gelyn ond *ewyllysio daioni* iddo – mynd allan o'n ffordd i wneud ein

gorau drosto. Nid perthyn i fyd greddf a theimlad y mae'r gair hwn ond i fyd ewyllys a bwriad. Os ydyn ni'n gweithredu'r *agapç* hwn, mae'n rhaid i ni garu, beth bynnag y mae'r person arall yn ei wneud i ni a ffordd bynnag y mae'n ein trin. Os yw yn ein cam-drin a'n bygwth, nid ydym i arddangos unrhyw chwerwder tuag ato, ond mae'n rhaid i ni ei garu. Dyna'r nod aruchel i'w gyrraedd.

Mae Iesu'n mynd gam ymhellach trwy ein hatgoffa mai fel hyn y mae Duw yn delio â ni ac mai dyma, felly, y ffordd yr ydym ninnau i ddelio â'n cyd-ddynion. Pan oeddwn yn brifathro ysgol, byddai ambell blentyn 'drwg' yn cael ei anfon ataf i'w geryddu. Ond nid ceryddu fyddwn i ond siarad yn dosturiol ac ymresymu â'r plentyn. Y gamp oedd troi'r drwgweithredwr yn gyfaill. Digon hawdd gwneud fel hyn â phlant, ond beth am bobl? Beth am wir elynion? Nid yn unig dweud wrth ei ddisgyblion a wnaeth Iesu, ond gweithredu. Clustfeiniwch ar y geiriau a lefarwyd oddi ar y groes, 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud' (Luc 23:34).

Myfyrdod pellach:

Ystyriwch ystyron y gwahanol eiriau am gariad yn yr iaith Roeg

Ydi gorchymyn Iesu i garu'n gelynion yn orchymyn ymarferol?